# Canllaw ar gynllunio hystingau

Os hoffech chi gynnal hystingau ar gyfer yr etholiad sydd ar y gweill, mae gennym y wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Bydd y canllaw hwn yn rhoi awgrymiadau i chi ar sut i drefnu a strwythuro hystingau, yn ogystal â chanllawiau pwysig ar sut i aros yn wleidyddol ddiduedd.

31 Mai 2024

## I lawrlwytho'r holl adnoddau Cymraeg ewch i'n prif dudalen hwb

## Pam trefnu hystingau?

Trafodaeth banel yw hystingau yn y cyfnod cyn etholiad lle mae ymgeiswyr yn trafod polisïau ac yn ateb cwestiynau gan y gynulleidfa. Mae hefyd yn ffordd wych o sicrhau ymrwymiadau gan ymgeiswyr, tra'n meithrin perthynas â'ch cynrychiolwyr etholedig posibl.

Er enghraifft, bu Cyfeillion y Ddaear Efrog yn gweithio gyda chynghreiriaid lleol gan gynnwys Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Efrog a'r Cynulliad Hinsawdd Ieuenctid Rhanbarthol i drefnu hystingau llwyddiannus ar gyfer etholiadau Maerol Efrog a Gogledd Swydd Efrog eleni. Daeth 140 o aelodau o'r cyhoedd i'r digwyddiad lle'r oedd 5 ymgeisydd yn nodi beth fyddai eu dull o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, pe baent yn cael eu hethol. Helpodd y digwyddiad i roi lle blaenllaw i'r hinsawdd ym mlaenoriaethau ymgeiswyr a gosod y sylfeini i'r grwpiau weithio gyda'r ymgeisydd buddugol ar hinsawdd a natur yn y dyfodol.

Fel arfer, mae hystingau yn cynnwys ymgeiswyr o bob prif blaid, maent yn cael eu trefnu gan amlaf gan fudiadau lleol fel grwpiau cymunedol neu grefyddol, ac yn cael eu cynnal yn yr ardal lle mae'r ymgeiswyr yn sefyll mewn etholiad. Maen nhw'n ffordd wych o gael gwybod mwy am safbwynt eich ymgeiswyr ar faterion allweddol ac i sicrhau ymrwymiadau y gallwch eu defnyddio'n ddiweddarach i'w dal yn atebol, os cânt eu hethol.

Mae trefnu hystingau hefyd yn ffordd wych o recriwtio aelodau newydd i'ch grŵp. Gwnewch yn siŵr eich bod yn archebu adnoddau gan gynnwys taflenni a chrysau-t ar gyfer y digwyddiad fel bod aelodau'r cyhoedd yn gwybod pwy ydych chi ac yn gwybod

sut i gymryd rhan. Mae gennym hefyd rai baneri etholiadol Cyfeillion y Ddaear y gallwch eu defnyddio yn eich digwyddiad. Os hoffech chi gael un, anfonwch e-bost at community@foe.co.uk

Archebu adnoddau

## Cyn yr hystingau

**Penderfynu ar y manylion sylfaenol**

Er nad oes diwrnod nac amser perffaith i gynnal hystingau, ceisiwch osgoi gwrthdaro â digwyddiadau lleol eraill. Efallai y byddwch am ystyried ei gynnal gyda'r nos neu ar benwythnosau pan fydd mwy o bobl yn gallu ymuno.

Gallwch gynnal eich hystingau wyneb yn wyneb neu ar-lein. Os byddwch yn penderfynu cynnal eich hystingau wyneb yn wyneb, mae rhai pethau y byddwch am eu cadw mewn cof:

- Dyddiad: penderfynwch ar eich dyddiad cyn gynted â phosibl er mwyn i chi allu trefnu lleoliad.
- Lleoliad: dewch o hyd i leoliad hygyrch. Mae llefydd fel canolfannau cymunedol ac eglwysi yn aml yn lleoliadau da i'w dewis.
- Asesiad risg: cofiwch gwblhau asesiad risg ar gyfer eich digwyddiad.
  Fel y gallwch ddychmygu, bydd gan ymgeiswyr amserlen lawn yn ystod cyfnod yr etholiad, felly efallai y bydd angen i chi drefnu dyddiad o gwmpas eu hargaeledd ar y cyd. Cyflwynwch eich cais yn gynnar a byddwch mor hyblyg â phosibl (defnyddiwch ein llythyr templed i wahodd eich ymgeiswyr).

**Diduedddrwydd gwleidyddol**

Yn ystod cyfnod yr etholiad cyffredinol, rhaid i chi gydymffurfio â chyfraith etholiadol. Y ffordd symlaf o wneud hyn wrth drefnu digwyddiad hystingau yw sicrhau nad yw eich digwyddiad yn "ddetholus". Mae hyn yn golygu naill ai gwahodd yr holl ymgeiswyr neu bleidiau y gwyddir eu bod yn sefyll yn eich etholaeth, neu ddim ond gwahodd nifer dethol o ymgeiswyr ar sail un o'r rhesymau canlynol:

- adnoddau ac elfennau ymarferol eraill sy'n cyfyngu ar nifer y bobl y gallwch eu gwahodd, er enghraifft amser neu le
- pryderon ynghylch diogelwch
- amlygrwydd lleol rhai pleidiau neu ymgeiswyr o'i gymharu ag eraill

- nifer y cynrychiolwyr etholedig ar lefel leol neu genedlaethol
- canlyniadau etholiad diweddar yn yr ardal.
  Ar sail hyn, rydym yn argymell eich bod yn gwahodd ymgeiswyr o bleidiau a enillodd sedd yn etholiad cyffredinol 2019. Sef ymgeiswyr ar ran y Ceidwadwyr, y Blaid Werdd, y Blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Lloegr, yn ogystal â Phlaid Cymru yng Nghymru. Gallwch wahodd ymgeiswyr eraill i gymryd rhan os dymunwch, ond cofiwch y gallai hyn effeithio ar ba mor dda fydd eich hystingau. Cysylltwch â ni ar community@foe.co.uk os oes gennych chi bryderon ynghylch pa ymgeiswyr i'w gwahodd i'ch hystingau.

**Dewis cyflwynydd**

Bydd angen i chi gael rhywun i gyflwyno ni waeth pa fformat rydych chi'n ei ddewis ar gyfer eich hystingau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis rhywun nad yw'n gysylltiedig â phlaid wleidyddol yn gyhoeddus.

Gallant fod yn aelod o'ch grŵp, yn newyddiadurwr lleol neu hyd yn oed yn berson enwog lleol. Os ydych chi'n cynnal hystingau traddodiadol, bydd angen i'r cyflwynydd hefyd sicrhau ei fod yn gyfarwydd â'r materion allweddol ac felly'n gallu gwthio ymgeiswyr am eglurhad.

Mae risg gyda hystingau y gall ymgeiswyr fynd yn ôl ac ymlaen ymhlith ei gilydd, felly dewiswch gyflwynydd sydd hefyd yn gallu cadw trefn.

**Lledaenu'r gair**

Po fwyaf o bobl y gallwch eu denu i'ch hystingau, y mwyaf y bydd ymgeiswyr yn teimlo'r pwysau i wneud ymrwymiadau beiddgar. Peidiwch â phoeni, mae gennym ni ddigon o adnoddau i roi cyhoeddusrwydd i'ch digwyddiad.

- Defnyddiwch ein delweddau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer hyrwyddo hystingau y gellir eu golygu ar gyfer Facebook, Instagram, X ac unrhyw blatfform ar-lein arall, yn ogystal â negeseuon cyfryngau cymdeithasol templed i'w rhannu â'ch rhwydwaith. Edrychwch ar ein canllaw ar sut i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn eich ymgyrch etholiadol, gan gynnwys mwy o ddelweddau a negeseuon templed.
- Mae ymgeiswyr eisiau'r holl sylw yn y wasg leol y gallant ei gael yn ystod cyfnod yr etholiad, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn gwahodd y wasg leol i'ch hystingau. Defnyddiwch ein templed datganiad i'r wasg i helpu i roi sylw i'ch digwyddiad yn y cyfryngau. Wrth wahodd ymgeiswyr, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod iddynt fod y wasg wedi cael gwahoddiad neu y byddant yn mynychu.

- Defnyddiwch Action Network, llwyfan ymgyrchu digidol, i gefnogi eich ymgyrchu lleol. Rydyn ni wedi creu templed digwyddiad hystingau Action Network, sy'n ffordd wych o hyrwyddo eich digwyddiad hystingau a'ch grŵp. Cysylltwch â ni ar community@foe.co.uk os hoffech chi ddefnyddio'r templed hwn a chael rhagor o wybodaeth am sut mae defnyddio Action Network ar gyfer ymgyrchu.
- Defnyddiwch eich rhwydwaith lleol gan gynnwys ffrindiau, teulu a grwpiau cymunedol cysylltiedig i helpu i ledaenu'r gair. Gallwch ddefnyddio ein taflen dempled i ledaenu'r gair yn eich cymuned drwy eu dosbarthu y tu allan i orsafoedd lleol neu eu gosod mewn bwytai a chaffis lleol er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl. Gallwch wneud cais i'n cronfa grŵp gweithredu lleol i dalu am gost argraffu.
  Gallwn ni helpu hefyd. Anfonwch fanylion am eich digwyddiad i community@foe.uk a gallwn anfon e-bost at gefnogwyr yn eich ardal.

## Fformat a strwythur

**Hystingau wyneb yn wyneb**

Nid ydych wedi'ch cyfyngu i fformat penodol. Dyma rai syniadau:

- Hystingau traddodiadol. Dyma lle mae gennych chi gyflwynydd a'r ymgeiswyr ym mlaen yr ystafell (wyneb yn wyneb neu ar-lein). Rhoddir cyfle i ymgeiswyr wneud datganiad agoriadol ac yna ateb cwestiynau gan y gynulleidfa yn eu tro gyda'r cyfle posibl i ymgeiswyr wneud datganiad clo.
- Hystingau cyflym. Mae hyn yn debyg i wib-ddêtio gan fod y gynulleidfa'n cael ei rhannu'n grwpiau bach ac mae ymgeiswyr yn symud o gwmpas yn treulio (e.e.) 10 munud gyda phob grŵp. Mae hyn yn galluogi mwy o sgwrs gyda'r ymgeiswyr, er efallai y byddwch am wahodd ymgeiswyr i wneud datganiad agoriadol ym mhob grŵp.
- Cyfweliadau wedi'u ffilmio. Mae'r rhain gyda phob ymgeisydd, ac rydych chi'n gofyn cwestiynau sydd wedi cael eu cyflwyno gan etholwyr ymlaen llaw. Gallwch wedyn rannu'r cyfweliadau hyn ar lwyfannau sgrinio fel YouTube neu Vimeo.
  Wrth ddewis eich fformat hystingau, meddyliwch am leisiau pwy sy'n cael eu clywed, pwy sy'n siarad a phwy sy'n gwrando. Mae hystingau yn gyfle da i bleidleiswyr glywed gan ymgeiswyr, ond hefyd i ymgeiswyr glywed gan bleidleiswyr am y materion sy'n bwysig iddyn nhw a'r hyn maen nhw'n ei ddisgwyl ar ôl i rywun gael ei ethol.

Er y bydd rhai hystingau yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion, gallant hefyd fod â ffocws penodol. Er enghraifft, fel rhan o Gynghrair COP26 Caerdydd, trefnodd Cyfeillion y Ddaear Caerdydd hystingau Cyfiawnder Hinsawdd hynod lwyddiannus. Os ydych chi wedi bod yn ymgyrchu fel rhan o Unedig dros Gartrefi Cynnes, efallai yr hoffech chi weithio gyda phartneriaid lleol i drefnu hystingau Cartrefi Cynnes.

I ddangos i ymgeiswyr fod lefel eang o gefnogaeth yn bodoli ar gyfer gweithredu ar yr hinsawdd, rydym yn argymell trefnu'r hystingau ar y cyd â chynghreiriaid neu grwpiau lleol eraill. Er enghraifft, os yw llygredd aer yn broblem fawr yn eich ardal chi, beth am gysylltu â grwpiau iechyd, athrawon lleol, cymunedau ffydd a grwpiau amgylcheddol eraill? Neu efallai y byddwch am weithio gyda grwpiau tlodi tanwydd, undebau llafur a banciau bwyd i ganolbwyntio eich hystingau ar yr argyfwng costau byw.

Gall cyd-drefnu'r digwyddiad hefyd gynyddu nifer y bobl sydd gennych yn yr ystafell a helpu i rannu'r llwyth gwaith. I gael help i ddod o hyd i gynghreiriau posibl, darllenwch ein canllawiau ar feithrin cynghreiriaid.

Mae Cyfeillion y Ddaear yn cydymffurfio â phob cyfraith a rheoliadau etholiadol, ac rydyn ni wedi ymrwymo i gynnal ein gweithgarwch mewn ffordd sy'n wleidyddol ddiduedd. Yn ystod etholiadau, ni all grwpiau gefnogi nac ymgyrchu dros unrhyw blaid nac ymgeisydd yn eu hetholaeth, ond gallant wneud sylwadau ar addunedau ac addewidion maniffesto gan yr ymgeiswyr. I gael rhagor o wybodaeth am sut i aros yn ddiduedd, darllenwch ein canllaw didueddrwydd gwleidyddol.

**Cynnal hystingau ar-lein**

Chi sy'n penderfynu a ydych chi'n cynnal eich hystingau wyneb yn wyneb neu ar-lein, ond rydyn ni'n dal i annog grwpiau i gynnal digwyddiadau ar-lein lle bo hynny'n bosibl. Dywedodd Sarah yn Cyfeillion y Ddaear Blackwater Valley fod hystingau ar-lein "wedi rhoi cyfle go iawn i'w cymuned gwrdd â'u cynghorydd posibl a gweld sut maen nhw'n ymateb i gwestiynau gwirioneddol berthnasol nad ydynt wedi cael eu hymarfer".

Mae Zoom yn adnodd gwych ar gyfer hystingau ar-lein ac mae modd i chi greu eich cyfrif eich hun yn hawdd yn Zoom.us


Mae'n werth nodi bod galwadau'n cael eu cyfyngu i 40 munud yn unig ar gyfrifon Zoom am ddim, felly efallai y byddwch chi am greu cyfrif â thâl ar gyfer eich grŵp. Fel arall, mae gennym hefyd ychydig o gyfrifon â thâl i grwpiau eu defnyddio. Er na allwn warantu y bydd gennym gyfrif â thâl ar gael, anfonwch e-bost at community@foe.uk i weld a oes gennym slot ar gael.

Prif fantais Zoom yw ei fod yn hawdd ac yn hygyrch. Gall unrhyw un sydd â dolen cyfarfod ymuno â'ch galwad heb fod angen cyfrif. Yr unig berson sydd angen cyfrif yw'r person sy'n trefnu ac yn cynnal y cyfarfod: y "gwesteiwr".

Bydd gweminar Zoom yn eich galluogi i drefnu eich digwyddiad fel mai dim ond y panelwyr a'r cyflwynydd fydd yn gallu rhoi eu camerâu ymlaen a dad-dewi eu

meicroffonau. Bydd aelodau'r gynulleidfa'n gallu cyflwyno cwestiynau drwy'r nodwedd Holi ac Ateb, ond ni fyddant yn gallu torri ar draws na siarad dros y panelwyr.

I drefnu eich gweminar, mewngofnodwch i'ch cyfrif a chlicio ar "Webinars" yn y ddewislen ar y chwith. Dewiswch "Schedule a webinar" a llenwch fanylion eich digwyddiad. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi galluogi sesiwn holi ac ateb, a dim ond os oes gennych chi ganiatâd yr holl banelwyr i recordio'r hystingau y dylech chi ddewis "Automatically record webinar".




Gwyliwch ein gweminar ddefnyddiol ar sut i drefnu hystingau ar-lein a chlywed awgrymiadau defnyddiol ar gyfer hwyluso trafodaeth ar-lein.

A chofiwch ddefnyddio ein cefndiroedd Zoom ar thema etholiad ar gyfer eich digwyddiad. Mae'r rhain hefyd ar gael yn Gymraeg.

### Strwythur

Isod ceir amlinelliad o sut y gallech strwythuro eich hystingau. Dim ond templed yw hwn i'ch helpu i gynllunio, felly dylech ei addasu a gwneud iddo weithio i chi, yn enwedig os ydych chi'n mynd i ddefnyddio un o'r fformatau hystingau eraill a awgrymir. Ein prif awgrym yw gadael digon o amser i'r gynulleidfa siarad ac i ymgeiswyr wrando, gan fod hystingau yn gyfle prin i'ch cymuned ofyn cwestiynau uniongyrchol i'w cynrychiolwyr posibl yn y dyfodol.

Mae hystingau yn para tua 90 munud, neu 2 awr ar y mwyaf. Os ydych chi'n gwneud hyn ar-lein, efallai y byddai'n werth i chi osod y gweminar Zoom i ddechrau 5 munud cyn yr amser dechrau cyhoeddus, er mwyn i ymgeiswyr allu setlo a datrys unrhyw broblemau cysylltu.

Os na all ymgeisydd ymuno, peidiwch â mynd i banig. Gofynnwch a all rheolwr yr ymgyrch gymryd ei le. Os bydd popeth arall yn methu, gallech ofyn iddynt ddarparu datganiad ysgrifenedig i'w ddarllen.

- Croeso gan y cyflwynydd. Ar ddechrau'r digwyddiad, gwnewch yn siŵr eich bod yn crybwyll enw eich grŵp ac yn rhoi gwybod i bobl sut y gallant gyfranogi. Os ydych chi'n ei wneud hyn ar-lein, dylech gynnwys cyflwyniad byr ar ganllawiau Zoom (10 munud).
- Sylwadau rhagarweiniol gan yr ymgeiswyr (15 munud). Gall hyn fod yn ddefnyddiol i'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â'r ymgeiswyr. Gallwch fframio hyn o amgylch cwestiwn rhagarweiniol, fel "beth ydych chi'n mynd i'w wneud am yr argyfwng hinsawdd os cewch eich ethol?" i sicrhau eu bod yn glynu at y pwnc.
- Cwestiynau gan y cyflwynydd i'r ymgeiswyr (25 munud).
- Sesiwn holi ac ateb i'r gynulleidfa (20 munud). Efallai y byddwch am feddwl am sut rydych am strwythuro'r sesiwn holi ac ateb. Er enghraifft, gallech ofyn i fynychwyr gyflwyno cwestiynau ar ddechrau'r digwyddiad drwy'r nodwedd Holi ac Ateb.
- Sylwadau clo gan yr ymgeiswyr (10 munud).
- Mae'r cyflwynydd yn cau'r hystingau ac yn atgoffa pobl eto o enw eich grŵp a sut i gyfranogi (5 munud).

  Cofiwch bostio lluniau ynghyd â dyfyniadau allweddol gan ymgeiswyr ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod eich digwyddiad. Bydd hyn yn caniatáu i bobl nad oeddent yn gallu ymuno â'ch digwyddiad ddilyn yr hyn sy'n digwydd. Mae defnyddio'r hashnod yn golygu bod y rhwydwaith cyfan yn gallu cysylltu â'r digwyddiad hefyd.

**Cwestiynau enghreifftiol**

Mae cwestiynau da yn rhan hanfodol o unrhyw hystingau, gan eu bod yn eich galluogi i archwilio safbwyntiau ymgeiswyr a hyd yn oed sicrhau ymrwymiadau y gallwch eu defnyddio i ddal ymgeiswyr i gyfrif.

Dyma rai cwestiynau enghreifftiol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn teilwra'r cwestiynau gymaint â phosibl i'ch cyd-destun lleol.

Mae ein hadnodd data hinsawdd yn dweud wrthych sut mae eich etholaeth yn perfformio ar faterion allweddol yn ymwneud â'r hinsawdd, a gall y canlyniadau helpu i deilwra eich cwestiynau ar gyfer ymgeiswyr etholiadol.

**Cwestiynau enghreifftiol ar gyfer pob ymgeisydd:**

1. Yn ein hetholaeth, mae xx% o gartrefi yn aneffeithlon o ran ynni, gan adael llawer o deuluoedd yn byw mewn cartrefi oer a llaith. Mae hyn yn cael effaith ddifrifol ar iechyd

meddwl a chorfforol pobl ac yn achosi allyriadau carbon diangen drwy wastraffu ynni. A wnaiff eich plaid sicrhau nad oes neb yn gorfod byw mewn cartref oer drwy gefnogi cyflwyno rhaglen insiwleiddio cartrefi, stryd ar ôl stryd, yn gyflym, gan ddechrau mewn cymdogaethau y mae tlodi tanwydd yn effeithio fwyaf arnynt?

2. Mae ymchwil gan Gyfeillion y Ddaear yn dangos bod 2.5 miliwn o aelwydydd rhent yn byw mewn cartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n wael a bod ganddynt incwm sy'n is na'r Safon Isafswm Incwm. Os cewch eich ethol, beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau bod eiddo rhent, preifat a chymdeithasol, yn cael eu hinswleiddio i lefel EPC C o leiaf?
3. Ledled y wlad, mae miliynau o bobl yn cael trafferth gyda biliau cynyddol a chostau byw cynyddol. Beth fydd eich plaid yn ei wneud i ddarparu cymorth brys i bobl sy'n cael eu gorfodi i ddogni eu defnydd o ynni, yn byw mewn cartrefi oer, llaith, a hyd yn oed yn ei chael yn anodd rhoi bwyd ar y bwrdd?
4. Mae dros 80% o gartrefi yn y DU yn ddibynnol ar nwy ar gyfer gwresogi. Mae'r orddibyniaeth hon ar danwydd ffosil drud wedi golygu bod llawer ohonom yn ei chael yn anodd talu ein biliau ynni wrth i gwmnïau olew a nwy wneud biliynau o bunnoedd o elw. Beth fydd eich plaid chi'n ei wneud i sicrhau bod ein cartrefi'n cael eu gwresogi gan ynni adnewyddadwy rhad yn hytrach na thanwydd ffosil drud sy'n llygru.
5. Mae'r Uchel Lys wedi dyfarnu bod cynlluniau hinsawdd presennol y llywodraeth yn anghyfreithlon ac wedi gorchymyn y llywodraeth i ysgrifennu un newydd. Sut y byddwch yn sicrhau bod y cynllun hinsawdd newydd yn cyflawni camau gweithredu sy'n rhannu'r costau a'r manteision yn deg?
6. Mae angen inni fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Ar yr un pryd, mae llawer yn cael trafferth gyda chostau byw. Os cewch eich ethol, beth fyddwch chi'n ei wneud i wneud dewisiadau carbon isel yn fforddiadwy ac yn hygyrch i bawb?
7. Pe gallai pawb elwa o amgylchedd o ansawdd da yn agos at eu cartrefi, byddai'n arbed biliynau o bunnoedd i'n GIG, yn gwella miliynau o fywydau ac yn rhoi cyfle i bobl fod yn rhan o benderfyniadau a wneir yn eu cymunedau. Mae'r DU wedi llofnodi un cytundeb rhyngwladol a dau benderfyniad gan y Cenhedloedd Unedig dros yr 20 mlynedd diwethaf i gefnogi'r hawl ddynol i amgylchedd iach. Beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau bod y llywodraeth nesaf yn cyflawni ymrwymiadau rhyngwladol y DU ac yn gwneud amgylchedd iach yn hawl gyfreithiol?
8. Mae'n anfaddeuol bod plant yn y DU wedi marw o ganlyniad i lygredd aer ar eu strydoedd, a hyd yn oed o ganlyniad i leithder a llwydni yn eu cartrefi. Beth fydd eich plaid yn ei wneud i atal rhagor o bobl ifanc rhag cael eu niweidio o ganlyniad i ba mor wenwynig yw eu hamgylchedd lleol?
9. A wnewch ymrwymo i gefnogi cyfraith newydd yn y DU ar fusnes, hawliau dynol a'r amgylchedd sy'n dal cwmnïau yn gyfrifol am ddifrod amgylcheddol a chymdeithasol yn eu cadwyni cyflenwi, a chytuno i ni gofnodi eich cefnogaeth? Beth fyddwch chi'n ei

wneud yn ystod eich wythnosau cyntaf i hyrwyddo'r angen am y gyfraith hon yn y senedd ac yn eich plaid?

10. Y ffordd o atal rhagor o laddiadau torfol ymysg sifiliaid Palesteina a chaniatáu rhyddhau'r gwystlon sydd ar ôl, yw cadoediad llawn, parhaol a di-oed. A wnewch ddatgan eich cefnogaeth i gadoediad di-oed, llawn a pharhaol yn Gaza, ac addo gwneud popeth o fewn eich gallu, os cewch eich ethol, i gyflawni hynny?
11. Mae'r DU yn cynhyrchu cydrannau hanfodol ar gyfer yr awyren F-35, a ddefnyddiwyd yn helaeth i ddinistrio Gaza. Mae cynhyrchydd arfau o Israel, Elbit, hefyd yn gweithredu ar 8 safle yn y DU lle mae'n cynhyrchu dronau a ddefnyddiwyd yn y rhyfel. Defnyddiwyd yr arfau hyn fel rhan o ymgyrch filwrol sydd wedi lladd 5 aelod o'n chwaer fudiad, Cyfeillion y Ddaear Palesteina, sy'n gweithio ar brosiectau cyfiawnder amgylcheddol cymunedol yn Gaza a'r West Bank, yn ogystal â thros 35,000 o bobl eraill yn Gaza. Os cewch eich ethol, beth fyddwch yn ei wneud i atal rhagor o ddioddefaint a rhoi terfyn ar ladd neu orthrymu Palestiniaid?

**Dysgu gan eraill**

Dal yn teimlo'n ansicr ynghylch trefnu eich hystingau? Mae Cyfeillion y Ddaear Barnet yn rhannu eu hawgrymiadau gorau ar gyfer cynnal hystingau.

Gallwch hefyd wylio ein hyfforddiant "Sut i drefnu hystingau" os oes angen rhagor o gyngor arnoch.

## Ar ôl y digwyddiad

Mae'n syniad da postio dilyniant ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn y wasg ar ôl eich hystingau. Beth bynnag rydych chi'n ei bostio neu'n ei ddweud, cofiwch aros yn ddiduedd. Y ffordd orau o wneud hynny yw osgoi cymharu perfformiad gwahanol ymgeiswyr neu bleidiau, neu ddweud pwy oedd â'r gefnogaeth fwyaf, neu bwy "enillodd" Gadewch i'r gynulleidfa benderfynu ar hynny.

Os ydych chi'n rhannu dyfyniadau ar y cyfryngau cymdeithasol neu mewn datganiad i'r wasg, cofiwch rannu amrywiaeth gytbwys o ddyfyniadau gan wahanol ymgeiswyr ac osgoi cymeradwyo unrhyw ymgeiswyr.

Fel arfer, os byddwch yn glynu wrth ein canllawiau didueddrwydd, byddwch yn iawn.

Hefyd, cofiwch gysylltu â phobl a ddaeth i'r digwyddiad a rhoi gwybod iddynt sut y gallant gymryd rhan yn eich ymgyrch leol neu'ch grŵp gweithredu lleol.

Cysylltwch hefyd gydag unrhyw sefydliadau partner y trefnoch chi'r digwyddiad gyda nhw. Efallai y gallech feddwl am sut i dreulio rhywfaint o amser cymdeithasol gyda'ch gilydd a myfyrio ar sut aeth y digwyddiad, yn ogystal â chyfleoedd i barhau i gydweithio yn y dyfodol.

## Gwneud cais am arian

Gwnewch gais i'r gronfa grŵp gweithredu lleol os oes angen cymorth ariannol arnoch i drefnu eich hystingau neu unrhyw weithgareddau eraill o gwmpas yr etholiadau.